

Datganiad o Ddiben yr Iaith Gymraeg

Mae SNAP Cymru yn dangos parch tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod pob gweithgaredd gan gydnabod yr angen i ymateb i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg mewn modd priodol. Rydym wedi ymrwymo'n llawn i fodloni goblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yn unol ag ymrwymiad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur), i sefydlu hawliau a rhyddid i ddefnyddwyr y Gymraeg, rydym ni yn SNAP Cymru yn ymdrechu i weithredu Safonau'r Gymraeg yn yr holl waith a wnawn gyda'r cyhoedd yng Nghymru, pa un a yw'n ofynnol yn gyfreithiol i wneud hynny ai peidio.

O fewn SNAP Cymru ceir Prif Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol am yr Iaith Gymraeg, Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg a Hyrwyddwr Iaith Gymraeg ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaethau ledled Cymru yn aml mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill sydd hefyd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ôl y gyfraith. Gyda hyn mewn golwg, mae gan SNAP Cymru gynllun iaith Gymraeg priodol yn unol â chynghor tîm y Comisiynydd a gaiff ei weithredu ar draws y sefydliad a'i adolygu'n flynyddol.

Dangoswn ein hymagwedd gyson at ein hymrwymiad i'r Gymraeg ar draws ein holl wasanaethau i sicrhau cyfle i'r unigolion allu cael gafael ar wasanaethau a deunyddiau yn yr iaith o'u dewis.

Sicrhawn fod popeth a wnawn ar gael yn ddwyieithog, boed hynny'n arwyddion (cyhoeddusrwydd ac ar y safle), hysbysebion, gwefan, proses recriwtio a staffio, a deunyddiau cefnogi a chyhoeddusrwydd - gan sicrhau nad yw'r un iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall. Sicrhawn fod ein polisïau a'n strategaeth sefydliadol yn hyrwyddo ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg.

Ein bwriad yw sicrhau:

- Bod cynnig dewis iaith ar gael o'r cychwyn cyntaf
- Bod yr holl blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ymwybodol y gallant gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bod modd darparu gohebiaeth gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn ddwyieithog.

- Bod gwasanaeth o'r un safon yn cael ei ddarparu yn Gymraeg a Saesneg
- Bod ein staff a'n tîm o wirfoddolwyr yn ymwybodol o sut i gefnogi unigolion sydd eisiau cael gafael ar wasanaethau yn y naill iaith neu'r llall
- Bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â phlant a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Ein bod yn uniaethu â theuluoedd yn y gymuned ac yn sicrhau bod y teuluoedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth dwyieithog.
- Ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddarparu capasiti dwyieithog i sicrhau bod ein holl wasanaethau'n cael eu darparu'n briodol ac yn brydlon.

Os na fyddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg, neu os oes unrhyw un yn anfodlon ar safon y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwn, gallant wneud cwyn i SNAP Cymru ac i Gomisiynydd y Gymraeg.

Cedwir cofnod o unrhyw gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ganolog a chaiff ei adolygu gan yr Uwch Dîm Arwain yn ystod y cyfarfodydd misol.